# Llwybr Vivian

Llechi Cymru
Wales Slate

CRONFA DREFTADAETH
HERITAGE FUND

## Gwybodaeth hanfodol

Rydym yn awyddus i chi fwynhau'ch ymweliad â Pharc Gwledig Padarn ond cofiwch y gall rhai rhannau o'r Parc fod yn beryglus ac y dylid cadw llygad ar blant trwy'r amser.

- Cadwch at y llwybrau sydd ag arwyddion cyfeirio yn unig
- Peidiwch â mynd i mewn i adfeilion adeiladau
- Cadwch draw o hen adeiladweithiau'r chwarel
- Mae rhai o'r llwybrau'n anwastad a rhai ar ymyl dibyn serth
- Mae hen weithfeydd y chwarel, llwybrau serth trwy'r coed a dyfroedd dwfn yn y Parc

**1** O Man Gwybodaeth Parc Gwledig Padarn yn y *Gilfach Ddu*, cerddwch i gyfeiriad adeilad gorsaf Rheilffordd Llyn Padarn. Dilynwch yr arwyddion cyfeirio glas tywyll i ardal pwll Chwarel Vivian. Gelwir twll chwarel yn 'sinc'. Llanwyd sinc Chwarel Vivian â dŵr pan ddiffoddwyd y pympiau dŵr gan ffurfio pwll 20 metr / 60 troedfedd o ddyfnder. Roedd y winsh Blondin uchod yn codi darnau llechfaen o'r sinc.

**2** Mae ponciau'r chwarel uwch ein pen yn edrych fel grisiau wedi'u torri ar ochr y mynydd. Sylwch ar wahanol liwiau'r llechfaen. Mae byd natur yn adfeddiannu'r chwarel yn raddol.

Yn yr adeilad hwn roedd injan y Fire Queen yn cael ei chadw. Roedd yn symud cynnyrch llechfaen rhwng Chwarel Dinorwig a'r *Felinheli*. Erbyn hyn, mae'r Fire Queen i'w gweld yng Nghastell Penrhyn. Y term am dynnu'r llechfaen o wyneb y graig oedd 'ennill' y garreg. Er mwyn cyrraedd y garreg, roedd y chwarelwyr yn clymu rhaff drwchus o gwmpas eu canol a'u coes ac yn hongian ar wyneb y graig. Roeddent yn rhyddhau'r garreg â gwifau (trosolion) a phowdwr du ac roedd yn syrthio i'r bonc isod lle'r oedd eu cydweithwyr. Roedd hyn yn waith peryglus.

**3** *Gwalia* oedd enw'r rhes adeiladau ar y chwith. Câi blociau enfawr o lechfaen eu cludo o'r bonc a chaent eu hollti a'u naddu yma gan weithwyr medrus. Roedd y llechi gorffenedig yn mynd o'r Cwt Criwlio neu'r Tŷ Drym, i lawr yr inclên i iard *Gilfach Ddu*. Roedd pwysau'r wageni llawn yn codi'r wageni gwag yr ochr draw. Byddai'r llechi'n cael eu cludo ar y rheilffordd i'r porthladd yn y *Felinheli* ar Afon Menai. Oddi yno, caent eu hanfon i Lerpwl a'u hallforio i bedwar ban byd.

**Mae dau lwybr y gallwch eu dilyn oddi yma.**
Ewch i bwynt 8 ar gyfer **Llwybr Uchaf Vivian**.
Mae **Llwybr Isaf Vivian** yn mynd ymlaen i Inclên Vivian o'ch blaen ac Amgueddfa Ysbyty'r Chwarel.

**4** *Y Caban* oedd yr adeilad hwn. Yma y byddai'r chwarelwyr yn cael eu bwyd. Roedd hefyd yn lle i drafod a mwynhau diwylliant. Mae Cwt Ambiwlans y chwarel i'w weld isod.

**5** Adeiladwyd Ysbyty Chwarel Dinorwig yn 1860 i ofalu am weithwyr y chwarel. Amgueddfa ydyw erbyn hyn.

**6** Cerddwch i lawr y grisiau pren a chroesi'r bont dros Reilffordd Llyn Padarn. Ar un adeg roedd y bont yr un uchder â'r grisiau. Roedd rêls yn cario gwastraff llechi dros y bont o bwynt 3 ac yna câi ei dipio i'r llyn.


**7** Bu'r ardal hon yn rhan o domen fawr o wastraff llechi. Mae gwaelod y domen 30 metr / 100 troedfedd o dan wyneb y llyn.

**8** **Llwybr Uchaf Vivian**. Trowch i'r dde trwy'r bwlch yn y wal. Bydd yn eich arwain at bedwaredd lefel y chwarel, yna trwy *Goed Dinorwig* ac i dop Chwarel Vivian.

**9** Dyma *Farics Dre Newydd*. Roedd chwarelwyr o'r tu allan i'r ardal yn byw yn y barics yn ystod yr wythnos. Rhai o Sir Fôn oedd llawer ohonynt ac felly cafodd yr enw "Anglesey Barracks". Dwy ystafell fach oedd ym mhob tŷ ac roedd pedwar o ddynion yn rhannu tŷ. Ychydig o ffenestri oedd yng nghefnau'r tai. Roedd cadw'r elfennau allan yn bwysicach na mwynhau'r olygfa.

**10** Cerddwch rhwng y rhesi tai at inclên y chwarel. Trowch i'r chwith i gyrraedd Gweledfan Dinorwig.

**11** Neu gallwch ddilyn y llwybr o'r Barics i ymuno â'r *Llwybr Main* sy'n llwybr igam-ogam. Cafodd hwn ei greu gan y chwarelwyr oddi mewn i'r domen lechi i'w gwarchod rhag y tywydd. Mae'r ffordd mae'r blociau llechi'n ffitio'n glòs wrth ei gilydd yn dangos pa mor fedrus yr oeddent. Roedd seddi yn rhan o'r wal fel y gallai'r chwarelwyr oedd yn cerdded ffordd bell i'r gwaith orffwys ar eu taith. Wrth gyrraedd y ffordd, trowch i'r dde. Dilynwch yr arwydd i Barc Gwledig Padarn a maes parcio'r *Gilfach Ddu*.




**Economi a Chymuned** | Parc Gwledig Padarn, Llanberis, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4TY | Ffôn: 01286 870892 | Ebost: parcgwledigpadarn@gwynedd.llyw.cymru | www.gwynedd.llyw.cymru | www.llechi.cymru